# CWLWM TWYLL

**Gweithgaredd 6 – Hawliau Plant**

Yn y wers, gwnaethoch drafod 6 Hawl i Blant sy'n hynod o berthnasol i Gamfanteisio'n Droseddol ar Blant.

1. Cwblhewch y tabl isod, gan egluro pam eu bod mor berthnasol a phwysig.

| Erthygl | Pam eu bod mor berthnasol a phwysig? |
|---|---|
| **Erthygl 19** – Mae gen i'r hawl i gael fy ngwarchod rhag cael fy mrifo neu fy nhrin yn wael | |
| **Erthygl 33** – Dylwn gael fy ngwarchod rhag cyffuriau peryglus | |
| **Erthygl 34** – Ni ddylai neb fy nghyffwrdd mewn ffyrdd sy'n gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus, yn anniogel neu'n drist | |
| **Erthygl 35** – Ni ddylaf gael fy nghipio, fy ngwerthu neu fy masnachu | |
| **Erthygl 36** – Mae gen i'r hawl i gael fy niogelu rhag pethau a allai effeithio fy natblygiad | |
| **Erthygl 39** – Mae gen i'r hawl i gael cymorth os wyf wedi cael fy mrifo, fy esgeuluso neu gael fy nhrin yn wael. | |

2. Gan ddefnyddio'r ddogfen 42 Erthygl o wefan Comisiynydd Plant Cymru https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/01/42-Articles-Welsh-A4-cards.pdf nodwch erthyglau eraill a allai fod yn ddefnyddiol i'w cofio.

3. Ystyriwch, sut allaf godi ymwybyddiaeth am yr hawliau hyn yn fy ysgol?

